Pennawd: Pa mor effeithiol mae'r llu o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu? – Trosolwg

Mae Heddlu Dyfed-Powys angen gwella ei effeithiolrwydd o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu. Mae'r llu yn atal troseddu ac yn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn effeithiol, a mae'n ymateb yn dda i droseddau difrifol a threfnedig. Fodd bynnag, mae angen i safonau ymchwilio wella, a mae gwendidau o ran y gefnogaeth a mesurau diogelu a ddarperir i bobl sy'n agored i niwed. Mae gan y llu y trefniadau sydd eu hangen yn eu lle i sicrhau y gall gyflawni ei gyfrifoldebau plismona cenedlaethol. Ein dyfarniad cyffredinol eleni yw'r un peth â llynedd, pan wnaethom ddyfarnu bod y llu angen gwella o ran effeithiolrwydd.

Yn gyffredinol, mae effeithiolrwydd Heddlu Dyfed-Powys o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu angen cael ei wella. Yn bennaf mae hyn oherwydd gwendid o ran y dull mae'r llu'n ymchwilio i droseddau ac yn cadw dioddefwyr yn ddiogel.

Mae gan y llu ymagwedd dda at atal troseddu a mae wedi dyrannu digon o adnoddau i blismona ei gymunedau'n dda. Mae ganddo ddealltwriaeth dda o'r bygythion sy'n wynebu ei gymunedau lleol trwy ei waith o fewn ei gymunedau a'i waith gyda sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus eraill.

Mae Heddlu Dyfed-Powys angen gwella o ran ymchwilio i droseddu a lleihau aildroseddu. Mae'r gwaith ymchwilio cychwynnol i drosedd yn dda ar y cyswllt cyntaf, a mae'r defnydd o ddull asesu seiliedig ar risg gan drafodwyr galwadau'n welliant calonogol. Fodd bynnag, mae'r polisi dyrannu troseddau wedi'i seilio ar y math o drosedd yn hytrach na'r bygythiad, niwed a risg sy'n gysylltiedig. Mae hyn yn golygu nad yw'r llu'n mabwysiadu ymagwedd seiliedig ar ddioddefwr at ddyrannu pob trosedd.

Mae Heddlu Dyfed-Powys angen gwella o ran diogelu'r rhai hynny sy'n agored i niwed, ac o ran cefnogi dioddefwyr. Mae rhai ymchwiliadau'n dal i gael eu dyrannu i swyddogion a staff nad oes ganddynt y sgiliau sydd eu hangen i ddelio ag ymchwiliadau cymhleth sydd â risg uchel. Mae hyn yn golygu nad yw dioddefwyr sy'n agored i niwed yn derbyn y lefel gywir o fesurau diogelu a chefnogaeth.

Mae'r llu'n dda o ran mynd i'r afael â throseddau difrifol a threfnedig. Mae'n gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill i ddatblygu dealltwriaeth gadarn o fygythion difrifol. Mae'n dda o ran rhwystro pobl rhag ymgysylltu â throseddau difrifol a threfnedig, ac yn rheoli troseddwyr yn weithredol er mwyn eu hatal rhag aildroseddu.

Mae gan y llu y trefniadau sydd eu hangen yn eu lle i sicrhau y gall gyflawni ei gyfrifoldebau plismona cenedlaethol. Mae wedi asesu'r bygythiad o ymosodiad a allai alw am ymateb arfog a mae ganddo drefniadau digonol yn eu lle i adolygu ei alluogrwydd arfau tanio.